Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Symud Gogledd Cymru Ymlaen

## Ein Gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru a Metro Gogledd-ddwyrain Cymru

Mawrth 2017

## Rhagair gan Ken Skates AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith



Mae posibiliadau enfawr i sicrhau twf economaidd yng Ngogledd Cymru ac i ychwanegu gwerth at economi Cymru a'r DU. Mae system drafnidiaeth fodern o safon uchel yn sylfaenol i hyn, gan gysylltu busnesau â marchnadoedd, hwyluso masnach, cyfnewid a theithio. Rwyf wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru i sicrhau bod yr ardal hon yng Nghymru yn elfen gystadleuol a chysylltiedig o Bwerdy Gogledd Lloegr.

Mae'n rhaid i'n buddsoddiad mewn trafnidiaeth gynnig manteision cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol i wneud Gogledd Cymru yn lle gwych i fyw a gweithio ynddo. Mae gadael cymunedau mwy diarffordd i fyw sy'n gyfan-gwbl ddibynnol ar geir yn annerbyniol yn amgylcheddol. Rwyf wedi ymrwymo £50 miliwn yn ychwanegol i symud ein cynlluniau ymlaen ar gyfer Metro Gogledd-ddwyrain Cymru. Mae hyn yn ychwanegol i'n hymrwymiadau sylweddol ar gyfer Gogledd Cymru sydd wedi'u hamlinellu yn ein Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015 fydd hefyd yn cyfrannu at gyflawni ein hamcanion.

Mae gennym weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru ond ni allwn gyflawni hyn ar ein pennau ein hunain. Byddwn yn cysylltu ac yn trafod â'r cyhoedd, partneriaid cyhoeddus a phreifat a thrydydd partïon ledled Cymru a gweddill Prydain i gyflawni ein hymrwymiadau.





# Gogledd Cymru – Cyfleoedd i Ddatblygu

## Ein Heconomi

Mae Gogledd Cymru mewn lleoliad gwych, o fewn cyrraedd marchnadoedd nid yn unig o fewn y rhanbarth ond hefyd farchnadoedd ledled Cymru, i Bwerdy Gogledd Lloegr a'r Canolbarth, i Lundain a gweddill y DU. Mae Gogledd Cymru yn cyfrannu bron £13 biliwn gwerth ychwanegol gros i economi Prydain[1]. Mae canol diwydiannol gogledd-ddwyrain Cymru gyda Gorllewin Sir Gaer a'r Wirral yn is-ranbarth economaidd Mersi Dyfrdwy. Gyda'i gilydd, mae gan ardal Gogledd Cymru a Mersi Dyfrdwy economi sy'n werth oddeutu £26.5 biliwn Gwerth Ychwanegol Gros[2].

## Swyddi a Sgiliau

Mae nifer o gwmnïau diwydiannol a masnachol sy'n bwysig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gyda phwyslais arbennig ar weithgynhyrchu-uwch ac ymchwil a datblygu. Mae gennym weithlu dawnus iawn, gyda chefnogaeth prifysgolion ym Mangor a Wrecsam a sector addysg bellach eang. Bydd safleoedd datblygu allweddol yn Wylfa Newydd, Wrecsam a Glannau Dyfrdwy yn cyfrannu at y disgwyliadau o ddyblu economi rhanbarth Gogledd Cymru – Mersi a Dyfrdwy erbyn 2040.


## Hamdden a Thwristiaeth

Mae gan Ogledd Cymru dirluniau a threftadaeth arbennig, chwaraeon o safon uchel a chyfleusterau diwylliannol ac mae wedi'i chydnabod gan y Lonely Planet Guide fel un o ardaloedd gorau'r byd i ymweld â hi yn ystod 2017. Mae'r gwariant bob blwyddyn ar dwristiaeth yng Ngogledd Cymru dros £1.2 biliwn, ac mae £659 miliwn ohono gan ymwelwyr domestig dros nos, £98 miliwn gan ymwelwyr rhyngwladol, a £481 miliwn o ymweliadau dydd gan dwristiaid[3]. Mae hamddena yn yr awyr agored yn farchnad sy'n tyfu, gyda'r datblygiadau diweddar yn Surf Snowdonia a Zip World sydd â'r wifren hiraf yn Ewrop.

1 https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/gva-by-measure-welsheconomicregion-year

2 https://www.ons.gov.uk/economy/grossvalueaddedgva/datasets/regionalgrossvalueaddedincomeapproach a http://gov.wales/docs/statistics/2016/161103-regional-economic-labour-market-profiles-november-2016-north-wales-en.pdf

3 International Passenger Survey (https://www.visitbritain.org/nation-region-county-data), GB Tourism Survey (http://dservuk.tns-global.com/GBTSWalesLightViewer/ViewTable.aspx), a GB Day Visits Survey (http://gov.wales/docs/statistics/2016/160809-great-britain-day-visitor-2015-en.pdf)


IWERDDON
CAERGYBI
CYFFORDD LLANDUDNO
BANGOR
LERPWL A MAES AWYR LERPWL
WARRINGTON
MANCEINION A MAES AWYR MANCEINION
CAER
WRECSAM
LLUNDAIN, CREWE A HS2
CANOLBARTH A DE CYMRU
CANOLBARTH LLOEGR
Gogledd Cymru a Mersi a'r Ddyfrdwy
Cysylltu Marchnadoedd
© Hawlfraint y Goron 2017
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/95/16.17
Chwefror 2017
Rheilffordd
Traffordd/Cefnffordd
Porthladd Fferi
Porthladd
Maes Awyr

# Ein Hymrwymiad

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu system drafnidiaeth yng Ngogledd Cymru sydd â ffocws rhyngwladol ac sy'n gwasanaethu rhanbarth uchelgeisiol, sy'n gysylltiedig â'r byd ehangach. Bydd o fantais i:

**Bobl –** Yn galluogi pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol, gyda chyfle cyfartal a mynediad at swyddi a gwasanaethau, gan alluogi pobl i gael swydd a chynnal y swyddi hynny.

**Busnesau –** Darparu amodau i fanteisio i'r eithaf ar ddatblygiadau economaidd a mynediad at waith o fewn marchnadoedd yng Nghymru, gweddill Prydain a thu hwnt, gan ysgogi arloesi a thwf am economi fodern.

**Cymunedau -** Cysylltu cymunedau â chyfleusterau, swyddi a gwasanaethau trwy seilwaith cynaliadwy sy'n creu cymunedau cymdeithasol cydlynus a chadarn.

**Amgylchedd –** Cynnwys egwyddorion datblygu cynaliadwy gyda rhwydwaith trafnidiaeth integredig a chynaliadwy.








# Ein Gweledigaeth am Rwydwaith Trafnidiaeth Integredig

Byddwn yn creu rhwydwaith cynaliadwy, dibynadwy, effeithiol a safonol ar draws y rhanbarth. Bydd yn cysylltu pobl, cymunedau a busnesau gyda swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau ac yn sicrhau cymaint â phosibl o gyfleoedd economaidd i gysylltu ledled Cymru a'r gororau. Byddwn yn darparu fframwaith polisi a'r dulliau angenrheidiol gan ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r WelTAG – Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru – er mwyn datblygu a darparu yr atebion mwyaf effeithiol.

**Bydd ein systemau trafnidiaeth yn cynnig:**

| Manteision | Meysydd sy'n Flaenoriaeth | Effeithiau |
|---|---|---|
| **Llesiant Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol** | Cynaliadwyedd | Yn annog defnyddio tanwydd a deunyddiau cynaliadwy; Lleihau allyriadau a gwella ansawdd yr aer; Ymateb i ddatblygiadau technolegol |
| | Cysylltedd | Cysylltedd cenedlaethol a rhyngwladol gan gynnwys i borthladdoedd a meysydd awyr; Mynediad i ganolfannau a gwasanaethau allweddol; Llwybrau teithio llesol o fewn cymunedau i gyfleusterau lleol a rhwydweithiau bws a rheillffordd; Gwasanaethau uniongyrchol i HS2 yn Crewe; Gwasanaethau bws a thrên uniongyrchol i safleoedd gwaith |
| | Teg a Hyblyg | Cyfleusterau a gwasanaethau trafnidiaeth hygyrch; Bodloni anghenion gwledig a dinesig; Cynnig cyfleoedd teithio i bawb; Safon uchel a fforddiadwy; Ymateb i newidiadau democrataidd a chymdeithasol |
| | Cydnerthedd | Diogel; Rhwydweithiau a gwasanaethau effeithiol a sefydlog; Ymateb i'r newid yn yr hinsawdd; Amser teithio llai; Amser teithio dibynadwy |
| | Integreiddio | Cyfnewidfeydd Trafnidiaeth aml-foddol newydd a gwell; Gwasanaethau bws, rheilffyrdd a chymunedol integredig a rheolaidd; Gwybodaeth hygyrch, ddibynadwy, ar gyfer pbob dull o deithio; Parcio a Theithio / Parcio a Rhannu; Tocynnau aml-foddol |


# Metro Gogledd-ddwyrain Cymru a Chysylltiadau ar Draws y Ffin

Mae cysylltiadau cadarn rhwng economi Gogledd-ddwyrain Cymru ac economi Gogledd-orllewin Lloegr. Cofnododd cyfrifiad 2011 gymudo sylweddol ar draws y ffin ddaeth i gyfanswm o filiwn o deithiau y mis. Mae llif sylweddol o deithwyr i'r gwaith bob dydd o Ogledd Cymru i Gaer a Sir Gaer (17,500), i Lannau Mersi (3,500) ac i Greater Manchester (2,200).

Hefyd, mae oddueut 20,000 o weithwyr yn croesi'r ffin bob diwrnod i mewn i Gymru. Mae hefyd oddeutu 3,000 o deithiau gan gymudwyr o Ogledd-ddwyrain Cymru i Shropshire bob dydd, gan ddangos pwysigrwydd cysylltiadau ar draws y ffin â Chanolbarth Lloegr[4].

Mae llwybrau ar draws y ffin drwy Ogledd-orllewin Cymru yn bwysig ar gyfer cludo nwyddau, yn enwedig cludo nwyddau rhwng tir mawr Ewrop, Lloegr ac Iwerddon. Mae cysylltiadau trafnidiaeth strategol lleol a rhanbarthol o Ogledd-ddwyrain Cymru i Ogledd-orllewin Cymru, Llangollen, Corwen a Chanolbarth, De a Gorllewin Cymru.

Mae detholiad o'r symudiadau cymhleth ar draws y ffin o fewn ardal Mersi Dyfrdwy i'w gweld yma.





[4] www.neighbourhood.statistics.gov.uk Commuting Patterns in the United Kingdom, 2011 Census

Nid oes gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus ar nifer o'r prif safleoedd cyflogi ar y ddwy ochr i'r ffin, ac o ganlyniad i hynny gwelir tagfeydd ac oedi ar y rhwydwaith ffyrdd wrth i bobl ddewis gyrru i'r gwaith ac mae'n lleihau cyfleoedd cyflogi i'r rhai hynny sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae posibiliadau cryf o dwf mewn swyddi yn y dyfodol yn yr ardal drawsffiniol gyda chynnydd mewn swyddi o oddeutu 45,000-55,000 dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd angen gwella'r systemau trafnidiaeth cyhoeddus a'r rhwydwaith ffyrdd i ymdopi â'r galw cynyddol ar ein rhwydweithiau trafnidiaeth.

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau ar draws y ffin, yn fwyaf amlwg yng Ngorllewin Swydd Gaer a Chyngor Caer, Awdurdod Cyfun Rhanbarth Dinas Lerpwl, Partneriaeth Menter Lleol Swydd Gaer a Warrington, Transport for the North a Midlands Connect. Drwy gydweithio, byddwn yn darparu system drafnidiaeth gyfun sy'n bodloni anghenion pobl Cymru a Lloegr, ac yn darparu gwasanaethau cyflym, rheolaidd a dibynadwy i swyddi presennol a swyddi sydd ar y gweill.

Datblygodd Tasglu Trafnidiaeth Integredig Gogledd-ddwyrain Cymru, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013, rwydwaith posibl ar gyfer y Metro yn ardal teithio i'r gwaith Gogledd-ddwyrain Cymru. Mae hwn i'w weld yma.

Roedd y Tasglu yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus, busnes a'r trydydd sector ar draws ffin Cymru-Lloegr. Mae'r Tasglu wedi dylanwadu ar brosiectau yr ydym yn eu datblygu ar hyn o bryd a byddwn yn ychwanegu at y gwaith hwn wrth inni ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer Metro Gogledd-ddwyrain Cymru.



# Rydym eisoes yn gwella trafnidiaeth ledled Gogledd Cymru

Wrth i'n cynlluniau ddatblygu rydym eisoes yn buddsoddi mewn prosiectau allweddol. Bydd rhain yn cyfrannu at gyflawni ein hamcanion hirdymor i wella capasiti a chadernid y rheilffyrdd a'r ffyrdd, cyfleusterau teithio llesol a chynlluniau i hwysluso datblygiadau a'r cymorth ar gyfer y gwasanaethau bws, rheilffordd ac awyr.

Mae mapiau 1 a 2 yn adlewyrchu rhai o'r prif brosiectau yr ydym yn eu datblygu ar hyn o bryd. Bydd angen i gynlluniau mawr eraill gael eu datblygu i gyflawni ein gweledigaeth ym maes trafnidiaeth ac i foderneiddio gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth.

**Cynlluniau priffyrdd sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd:**

1. **Trydydd croesfan ar draws Afon Menai** i ddarparu capasiti ychwanegol, gwrthsefyll tagfeydd yn well. Gallai'r gwaith ddechrau erbyn diwedd 2020.
2. **Gwelliant yr A55 Abergwyngregyn i Tai'r Meibion** bydd yn uwchraddio'r rhan hon o'r ffordd i'r safonau cyfredol ac yn gwella draenio, y gallu i wrthsefyll a diogelwch. Mae'r gwaith i ddechrau yn 2017.
3. **Cyffyrdd 15 ac 16 yr A55** gosod cyffyrdd aml-lefel yn lle cylchfannau i wella diogelwch ac amser teithio. Gallai'r gwaith ddechrau yn 2019.
4. **Gwelliant A55/A494/A548 Coridor Glannau Dyfrdwy** pecyn o fesurau i gynnwys cynllun priffyrdd i wella cysylltedd, diogelwch a'r gallu i wrthsefyll a lleihau tagfeydd ar gysylltiad strategol allweddol i Ogledd Cymru. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar ddau opsiwn yn ystod Mawrth-Mehefin 2017 a disgwylir i lwybr a ffefrir gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2017.
5. **A494 Gwelliant Pont Afon Dyfrdwy** darparu pont newydd fydd yn caniatáu i'r bont bresennol, sydd mewn cyflwr gwael, i gael ei gwella.
6. **Ffordd Osgoi yr A487 Caernarfon i Bontnewydd** bydd yn gwella cysylltedd a diogelwch ar y ffyrdd, lleihau tagfeydd a thraffig mewn ardaloedd adeiledig. Gallai'r gwaith ddechrau ar ddiwedd 2017.
7. **A487 Pont ar Ddyfi, Machynlleth** adeiladu pont newydd yn uwch i fyny'r afon o'r bont hanesyddol bresennol i wella cysylltedd a'r gallu i wrthsefyll. Mae'r bont hanesyddol yn anaddas ar gyfer y traffig presennol ac mae'n rhaid ei chau ar brydiau oherwydd llifogydd. Gallai'r gwaith ddechrau yn 2017.
8. **Gwelliannau i'r A483 Cyffyrdd 4 a 5** datblygu opsiynau i wella capasiti ar gyffyrdd allweddol gyda chefnffordd yr A483 i'r gorllewin o Wrecsam i'w gwneud yn haws i ddod â gwaith a datblygiadau tai i'r ardal.
9. **Gwelliant A483/A5 Cyffordd Halton** datblygu cynllun i wella capasiti a lleihau ciwiau.
10. **Gwelliant yr A55 i Borthladd Caergybi** datblygu cynllun i wella mynediad i'r A55 ar gyfer cerbydau sy'n gadael Porthladd Caergybi, i leihau tagfeydd ac oedi, yn enwedig i gerbydau cludo nwyddau ac i wella amodau ar gyfer defnyddwyr ffyrdd lleol.
11. **Astudiaeth Llwybr yr A55** astudiaeth o broblemau traffig ar hyn o bryd a'r problemau a ragwelir ar yr A55 ledled Gogledd Cymru gan ystyried twf economaidd strategol allweddol a chyfleoedd i ddatblygu, a nodi opsiynau i ddelio â'r cynnydd mewn traffig ble y bo'n briodol.
12. **Astudiaeth Llwybr yr A483** astudiaeth o broblemau traffig ar hyn o bryd a'r problemau a ragwelir rhwng yr A483 Cylchdro Gledrid, Y Waun a Chyfnewidfa'r Orsaf, gan ystyried twf economaidd strategol allweddol a nodi opsiynau i ddelio â'r cynnydd mewn traffig ble y bo'n briodol.




# Symud Gogledd Cymru Ymlaen

## Map 1: Cynlluniau Priffyrdd ar y Gweill

© Hawlfraint y Goron 2017
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/95/16.17

Ionawr 2017

1 Trydydd pont ar draws y Fenai
2 Gwelliant Cyffyrdd 12 ac 13 yr A55 Abergwyngregyn i Tai'r Meibion
3 Cynlluniau gwella Cyffyrdd 15 ac 16 yr A55
4 Gwelliant Coridor Glannau Dyfrdwy yr A55/A494/A548
5 Gwelliant Pont Afon Dyfrdwy yr A494
6 A487 Caernarfon i Bontnewydd
7 A487 Pont ar Ddyfi, Machynlleth
8 Gwelliannau Cyffyrdd 4 a 5 yr A483
9 Gwelliant Cyffordd Halton yr A483/A5
10 Gwelliant yr A55 i Borthladd Caergybi
11 Astudiaeth Llwybr yr A55
12 Astudiaeth Llwybr yr A483







**Cynlluniau rheilffyrdd a thrafnidiaeth integredig yn cael eu datblygu ar gyfer:**

1. **Gwelliannau Capasiti, Gorsaf Caer** datblygu opsiynau i gynnwys y cynnydd yn nifer y gwasanaethau rheilffordd drwy'r orsaf.
2. **Canolfannau Trafnidiaeth Integredig a Gwell Mynediad i Reilffyrdd, Glannau Dyfrdwy** datblygu opsiynau i'w gwneud yn haws i deithio ar drenau, bysiau a theithio llesol i brif safleoedd cyflogaeth yng Nglannau Dyfrdwy.
3. **Canolfannau Trafnidiaeth Integredig, Wrecsam** datblygu opsiynau i wella cyfnewidfeydd rheilffordd / bws / teithio llesol yng Ngorsaf Gyffredinol Wrecsam a lleoliadau allweddol eraill o fewn dalgylch Wrecsam.
4. **Trydaneiddio Prif Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru** parhau i weithio gyda phartneriaid i gyflwyno'r achos i Lywodraeth Prydain fuddsoddi yn y cynllun hwn i wella mynediad i HS2 a'r farchnad ehangach ym Mhrydain.
5. **Gwelliannau i Gapasiti'r Rheilffordd rhwng Wrecsam a Chaer** datblygu opsiynau ar gyfer rhagor o welliannau capasiti i ganiatâu rhagor o wasanaethau rheilffordd.
6. **Gwelliannau i arwyddion a chyflymder y rheilffordd ar Brif Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru** i'w darparu gan Network Rail a bydd yn caniatáu teithiau cyflymach a mwy dibynadwy.
7. **Gwella cyflymder rheilffyrdd ar Reilffordd Wrecsam-Bidston** datblygu opsiynau i hwyluso teithiau cyflymach a mwy dibynadwy.
8. **Cyfleusterau Cludo Nwyddau ar Reilffyrdd ym Mhorthladd Caergybi** gweithio gyda partneriaid i nodi cyfleoedd i ddatblygu cyfleusterau cludo nwyddau ym Mhorthladd Caergybi ac annog trosglwyddo nwyddau o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd.
9. **Masnachfraint Cymru a'r Gororau** parhau i baratoi manyleb ar gyfer masnachfraint newydd i'w gweithredu o 2018.
10. **Gwasanaethau Rheilffordd Uniongyrchol i Lerpwl drwy Halton Curve** datblygu gwasanaethau rhwng Gogledd Cymru a Lerpwl drwy Faes Awyr Lerpwl gan ddefnyddio Halton Curve, sydd newydd ail-agor.




# Symud Gogledd Cymru Ymlaen

## Map 2: Cynlluniau Rheilffordd a Thrafnidiaeth Integredig ar y Gweill

© Hawlfraint y Goron 2017
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/95/16.17
Ionawr 2017

1. Gwella Capasiti Gorsaf Caer
2. Canolfannau Trafnidiaeth Integredig a Rheilffyrdd Gwell
3. Canolfannau Trafnidiaeth â Mynediad Integredig
4. Trydaneiddio'r Rheilffordd o Caergybi i Caer a Crewe/Warrington
5. Gwelliannau i Gapasiti'r Rheilffordd rhwng Wrecsam a Chaer
6. Gwelliannau i'r Arwyddion a Chyflymder y Rheilffordd ar Brif Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru rhwng Caer a Llandudno/Caergybi
7. Gwelliannau i Gyflymder y Rheilffordd ar Reilffordd Wrecsam-Bidston
8. Cyfleusterau Cludo Nwyddau ar y Rheilffordd
9. Masnachfraint Newydd Cymru a'r Gororau (perthnasol i bob rheilffordd yng Ngogledd Cymru)
10. Gwasanaethau Rheilffordd Uniongyrchol i Liverpool Halton Chord

# Hawlfraint Lluniau

**Tudalen 3**
Gogledd Cymru: Cysylltu Marchnadoedd:
© Hawlfraint y Goron (2016)

**Tudalen 4**
Chwith Uchaf: Trafnidiaeth LIC, Chwith Isaf:
© Hawlfraint y Goron (2016) Croeso Cymru,
Dde: AECOM

**Tudalen 6**
Ardal Gogledd-ddwyrain Cymru/Mersi Dyfrdwy:
© Hawlfraint y Goron (2016)

**Tudalen 7**
Tasglu Trafnidiaeth Integredig Gogledd-ddwyrain
Cymru: Adroddiad i Weinidog yr Economi,
Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Mehefin 2013

**Tudalen 9**
Cynlluniau Priffyrdd ar y Gweill:
© Hawlfraint y Goron (2016)

**Tudalen 10**
Uchaf a Canol: © Hawlfraint y Goron (2016)
Croeso Cymru, Gwaelod: Sustrans Cymru

**Tudalen 11**
Cynlluniau Rheilffordd a Thrafnidiaeth Integredig
ar y Gweill: © Hawlfraint y Goron (2016)

**Tudalen 12**
Pob llun: © Hawlfraint y Goron (2016) Croeso Cymru

**Cwestiynau?**
Cysylltwch â **CustomerHelp@Wales.gsi.gov.uk**









OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG30596
ISBN Digidol 978 1 4734 8860 1 ISBN Argraffu 978 1 4734 8858 8